

BIOLEG 1: Moleciwlau i Organau

Amser - 1.5 awr

Rhowch gynnig ar 3 cwestiwn.

1. Ysgrifennwch draethawd biolegol am ddŵr.
2. Yn y pen draw, mae'r corff dynol wedi'i ffurfio o CO₂ atmosfferig. Rhowch fraslun cryno o'r prosesau perthnasol mewn bodau dynol ac organebau eraill.
3. Cymharwch y mecanweithiau cyfnewid nwyon mewn rhai anifeiliaid gwahanol.
4. Esboniwch y camau sy'n digwydd pan fydd cod genetig ar gromosom yn arwain at ffurfio protein cellol.
5. Beth yw ystyr 'geneteg Fendelaidd'?
6. Rhowch rai enghreifftiau o ensymau ac esboniwch sut y gellir astudio eu hymatebion.
7. Eglurwch yr hyn fydd yn digwydd i'ch pryd bwyd nesaf ar ôl iddo gyrraedd eich system dreulio.
8. Ym mha ffyrdd y gallai gwahanol fathau o anifeiliaid gael eu haddasu i'w deietau?
9. Trafodwch bwysigrwydd lipidau o ran biocemeg ac o ran deiet.
10. Disgrifiwch sut y mae gwaed yn cylchredeg drwy'r corff dynol.
11. Esboniwch egwyddor fiolegol 'homeostasis', gan roi enghreifftiau.
12. Sut y mae deunydd organig ac anorganig yn cael eu cludo o fewn corff planhigyn?
13. Beth yw arenau a sut y maen nhw'n gweithio?
14. Disgrifiwch yr hyn sy'n digwydd yn ystod cyfnod mislif menywod.
15. Trafodwch wahanol adeileddau a swyddogaethau blodau a ffrwythau.
16. Sut mae'r system imiwnedd yn ein hamddiffyn? A yw'n gallu bod yn anfanteisiol weithiau?
17. Beth yw bacteria?
18. Beth a astudir ym mhwnc newydd 'biowybodeg'?